

# **TREFN YR OFFEREN**

# **THE ORDER OF MASS**

## RHAGARWEINIAD

*Ar ôl i'r bobl ymgynnull, mae'r offeiriad a'r gweinidogion yn mynd i fyny at yr allor tra cenir yr ymdeithgan.*

*Pan ddaw'r offeiriad at yr allor, mae'n dangos parch ati yn y ffordd arferol gyda'r gweinidogion, yna'n cusanu'r allor ac o bosib yn ei harogldarthu.*

*Yna, ynghyd a'r gweinidogion, mae'n mynd at y gadair.*

*Ar ôl yr ymdeithgan, mae'r offeiriad a'r ffyddloniaid yn aros ar eu traed ac yn ymgroesi, wrth i'r offeiriad, gan wynebu'r bobl, ddweud:*

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

*Pawb yn ateb:*

**Amen**

*Yna, mae'r offeiriad yn estyn ei ddwylo a chyfarch y bobl gan ddweud:*

Gras ein Harglwydd Iesu Grist,  
a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân  
a fo gyda chwi oll.

*Pawb yn ateb:*

**A chyda thithau**

*neu*

Gras a thangnefedd oddi wrth Dduw Dad  
a'n Harglwydd Iesu Grist

*Pawb yn ateb:*

**Bendigidig fo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist.**

*neu*

Yr Arglwydd a fo gyda chwi

*Pawb yn ateb:*

**A chyda thithau**

*Mae'r offeiriad, diacon neu weinidog arall yn cyflwyno Offeren y dydd yn fyr.*

## THE INTRODUCTORY RITES

*When the people are gathered, the Priest approaches the altar with the ministers while the Entrance Chant is sung.*

*When he has arrived at the altar, after making a profound bow with the ministers, the Priest venerates the altar with a kiss and, if appropriate, incenses the cross and the altar. Then, with the ministers, he goes to the chair.*

*When the Entrance Chant is concluded, the Priest and the faithful, standing, sign themselves with the Sign of the Cross, while the Priest, facing the people, says:*

In the name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit.

*The people reply:*

**Amen.**

*Then the Priest, extending his hands, greets the people, saying:*

The grace of our Lord Jesus Christ,  
and the love of God,  
and the communion of the Holy Spirit  
be with you all.

*Or:*

Grace to you and peace from God our Father  
and the Lord Jesus Christ.

*Or:*

The Lord be with you.

*The people reply:*

And with your spirit.

*In this first greeting a Bishop, instead of The Lord be with you, says: Peace be with you.*

*The Priest, or a Deacon, or another minister, may very briefly introduce the faithful to the Mass of the day.*

## GWEITHRED O EDIFEIRWCH

*Mae'r offeiriad yn gwadd y bobl i edifarhau am eu pechodau:*

Frodyr a chwirydd,  
gadewch inni gydnabod ein pechodau gerbron Duw,  
er mwyn bod yn gymwys i weinyddu'r dirgeleddau sanctaidd.

*Ar ôl ennyd o ddistawrwydd, mae pawb yn dweud*

**Cyffesaf i Dduw Hollalluog  
ac i chwithau fy mrodyr a'm chwirydd,  
fy mod wedi pechu'n ddirfawr  
ar feddwl, gair a gweithred, ac o esgeulustod,**

*Maen nhw'n taro eu bron, a dweud:*

**drwy fy mai, drwy fy mai, drwy fy nirfawr fai;**

*Maen nhw'n mynd ymlaen:*

**Gan hynny, 'rwy'n erfyn ar Fair Fendigaid y Fythol Forwyn,  
ar yr holl Angylion a'r Saint,  
ac arnoch chwithau, fy mrodyr a'm chwirydd,  
i weddio drosaf ar yr Arglwydd ein Duw.**

*Mae'r offeiriad yn cyhoeddi'r gollyngdod:*

Bydded i Dduw Hollalluog drugarhau wrthym,  
a maddau ein pechodau,  
a'n harwain i'r bywyd tragwyddol.

*Pawb yn ateb:*

**Amen**

*Mae'r ymbiliau, Kyrie, eleison, (Arglwydd, trugarha wrthym*

O: Arglwydd, trugarha wrthym. **P: Arglwydd, trugarha wrthym.**

O: Crist, trugarha wrthym. **P: Crist, trugarha wrthym.**

O: Arglwydd, trugarha wrthym. **P: Arglwydd, trugarha wrthym.**

*Neu:*

O: Kyrie, eleison. **P: Kyrie, eleison.**

O: Christe, eleison. **P: Christe, eleison.**

O: Kyrie, eleison. **P: Kyrie, eleison.**

## PENITENTIAL ACT

*Then follows the Penitential Act, to which the Priest invites the faithful, saying:*

Brethren (brothers and sisters),  
let us acknowledge our sins,  
and so prepare ourselves to celebrate the sacred mysteries.

*A brief pause for silence follows. Then all recite together the formula of general confession:*

I confess to almighty God  
and to you, my brothers and sisters,  
that I have greatly sinned,  
in my thoughts and in my words,  
in what I have done and in what I have failed to do,

*And, striking their breast, they say:*

through my fault, through my fault,  
through my most grievous fault;

*Then they continue:*

therefore I ask blessed Mary ever-Virgin,  
all the Angels and Saints,  
and you, my brothers and sisters,  
to pray for me to the Lord our God.

*The absolution by the Priest follows:*

May almighty God have mercy on us,  
forgive us our sins,  
and bring us to everlasting life.

*The people reply:*

Amen.

*The Kyrie eleison (Lord, have mercy) invocations follow.*

V. Lord, have mercy. R. Lord, have mercy.

V. Christ, have mercy. R. Christ, have mercy.

V. Lord, have mercy. R. Lord, have mercy.

*Or:*

V. Kyrie, eleison. R. Kyrie, eleison.

V. Christe, eleison. R. Christe, eleison.

V. Kyrie, eleison. R. Kyrie, eleison.

*Neu*

*Mae'r offeiriad yn gwadd y bobl i edifarhau am eu pechodau:*

Frodyr a chwiorydd,  
gadewch inni gydnabod ein pechodau gerbron Duw,  
er mwyn bod yn gymwys i weinyddu'r dirgeleddau sanctaidd.

*Ennyd o ddistawrwydd.*

*Yna, mae'r Offeiriad yn dweud:*

Arglwydd, trugarha wrthym, oblegid i ni bechu yn dy erbyn.

*Pawb yn ateb:*

**Arglwydd, trugarha wrthym.**

*Yr Offeiriad:*

Arglwydd, dangos i ni dy drugaredd a'th gariad.

*Y bobl:*

**A dyro i ni dy iachawdwriaeth.**

*Mae'r offeiriad yn cyhoeddi'r gollyngdod:*

Bydded i Dduw Hollalluog drugarhau wrthym,  
a maddau ein pechodau,  
a'n harwain i'r bywyd tragwyddol.

*Pawb yn ateb:*

**Amen**

*Mae'r ymbiliau, Kyrie, eleison, (Arglwydd, trugarha wrthym*

O: Arglwydd, trugarha wrthym. **P: Arglwydd, trugarha wrthym.**

O: Crist, trugarha wrthym. **P: Crist, trugarha wrthym.**

O: Arglwydd, trugarha wrthym. **P: Arglwydd, trugarha wrthym.**

*Neu:*

O: Kyrie, eleison. **P: Kyrie, eleison.**

O: Christe, eleison. **P: Christe, eleison.**

O: Kyrie, eleison. **P: Kyrie, eleison.**

*Or:*

*The Priest invites the faithful to make the Penitential Act:*

Brethren (brothers and sisters),  
let us acknowledge our sins,  
and so prepare ourselves to celebrate the sacred mysteries.

*A brief pause for silence follows.*

*The Priest then says:*

Have mercy on us, O Lord.

*The people reply:*

For we have sinned against you.

*The Priest:*

Show us, O Lord, your mercy.

*The people:*

And grant us your salvation.

*The absolution by the Priest follows:*

May almighty God have mercy on us,  
forgive us our sins,  
and bring us to everlasting life.

*The people reply:*

Amen.

*The Kyrie eleison (Lord, have mercy) invocations follow.*

V. Lord, have mercy. R. Lord, have mercy.

V. Christ, have mercy. R. Christ, have mercy.

V. Lord, have mercy. R. Lord, have mercy.

*Or:*

V. Kyrie, eleison. R. Kyrie, eleison.

V. Christe, eleison. R. Christe, eleison.

V. Kyrie, eleison. R. Kyrie, eleison.



*Neu:*

*Mae'r offeiriad yn gwadd y bobl i edifarhau am eu pechodau:*

Frodyr a chwirydd,

gadewch inni gydnabod ein pechodau gerbron Duw,

er mwyn bod yn gymwys i weinyddu'r dirgeleddau sanctaidd.

*Ar ôl ennyd o ddistawrwydd, mae'r offeiriad (neu weinidog priodol arall) yn adrodd yr ymbiliau hyn neu rai eraill gyda: Kyrie, eleison ( Arglwydd, trugarha wrthym.)*

Fe'th anfonwyd i iachau'r rhai edifar o galon:

Arglwydd, trugarha wrthym. *Neu:* Kyrie, eleison.

*Pawb yn ateb:*

**Arglwydd, trugarha wrthym.** *Neu:* Kyrie, eleison.

*Yr Offeiriad:*

Fe ddaethost i alw pechaduriaid:

Crist, trugarha wrthym. *Neu:* Christe, eleison

*Y bobl:*

**Crist, trugarha wrthym,** *Neu:* Christe, eleison

*Yr Offeiriad:*

Ti sy'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad, i eiriol drosom:

Arglwydd, trugarha wrthym. *Neu:* Kyrie, eleison

*Y bobl:*

**Arglwydd, trugarha wrthym.** *Neu:* Kyrie, eleison

*Mae'r offeiriad yn cyhoeddi'r gollyngdod:*

Bydded i Dduw Hollalluog drugarhau wrthym,

a maddau ein pechodau,

a'n harwain i'r bywyd tragwyddol.

*Pawb yn ateb:*

**Amen.**

*Or:*

*The Priest invites the faithful to make the Penitential Act:*

Brethren (brothers and sisters), let us acknowledge our sins,  
and so prepare ourselves to celebrate the sacred mysteries.

*A brief pause for silence follows.*

*The Priest, or a Deacon or another minister, then says the following or other  
invocations with Kyrie, eleison (Lord, have mercy):*

You were sent to heal the contrite of heart:

Lord, have mercy. *Or:* Kyrie, eleison.

*The people reply:*

Lord, have mercy. *Or:* Kyrie, eleison.

*The Priest:*

You came to call sinners:

Christ, have mercy. *Or:* Christe, eleison.

*The people:*

Christ, have mercy. *Or:* Christe, eleison.

*The Priest:*

You are seated at the right hand of the Father to intercede for us:

Lord, have mercy. *Or:* Kyrie, eleison.

*The people:*

Lord, have mercy. *Or:* Kyrie, eleison.

*The absolution by the Priest follows:*

May almighty God have mercy on us,  
forgive us our sins,  
and bring us to everlasting life.

*The people reply:*

Amen.

*Then, when it is prescribed, this hymn is either sung or said:*

**Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,  
ac ar y ddaear tangnefedd i ddynion o ewyllys da.  
Moliannwn di,  
bendithiwn di,  
addolwn di,  
gogoneddwn di,  
diolchwn i ti am dy fawr ogoniant,  
Arglwydd Dduw, frenin nefol,  
Duw Dad Hollalluog.  
Arglwydd Iesu Grist, yr unig-anedig Fab,  
Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad,  
tydi sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd,  
trugarha wrthym;  
tydi sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd,  
derbyn ein gweddi;  
tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad,  
trugarha wrthym.  
Oblegid ti yn unig sy'n sanctaidd,  
ti yn unig yw'r Arglwydd,  
ti yn unig, Iesu Grist, sy'n oruchaf,  
gyda'r Ysbryd Glân  
yng ngogoniant Duw Dad.  
Amen.**

*When this hymn is concluded, the Priest, with hands joined, says:*

**Gweddiwn.**

*Mae'r offeiriad a'r bobl yn gweddio'n ddistaw am ychydig.*

*Yna mae'r offeiriad yn estyn ei ddwylo ac yn canu neu adrodd y weddi agoriadol, ac ar y diwedd mae'r bobl yn ateb:*

**Amen.**

*Then, when it is prescribed, this hymn is either sung or said:*

Glory to God in the highest,  
and on earth peace to people of good will.  
We praise you,  
we bless you,  
we adore you,  
we glorify you,  
we give you thanks for your great glory,  
Lord God, heavenly King,  
O God, almighty Father.  
Lord Jesus Christ, Only Begotten Son,  
Lord God, Lamb of God, Son of the Father,  
you take away the sins of the world,  
have mercy on us;  
you take away the sins of the world,  
receive our prayer;  
you are seated at the right hand of the Father,  
have mercy on us.  
For you alone are the Holy One,  
you alone are the Lord,  
you alone are the Most High,  
Jesus Christ,  
with the Holy Spirit,  
in the glory of God the Father.  
Amen.

*When this hymn is concluded, the Priest, with hands joined, says:*

Let us pray.

*And all pray in silence with the Priest for a while.*

*Then the Priest, with hands extended, says the Collect prayer, at the end of which the people acclaim:*

Amen.

## GWASANAETH Y GAIR

*Mae'r darllynydd yn mynd at y ddarllenfa ar gyfer y llith gyntaf. Pawb i eistedd i wrando. Ar y diwedd, mae'r darllynydd yn dweud:*

Gogoniant i Dduw am ei Air.

*Pawb yn ateb:*

**Diolch i ti, O Dduw.**

*Mae'r cantor yn canu neu adrodd y salm, a'r bobol yn ateb.*

*Pan geir ail lith, fe'i darllenir o'r ddarllenfa fel o'r blaen. Ar y diwedd mae'r darllynydd yn dweud:*

Gogoniant i Dduw am ei Air.

*Pawb yn ateb:*

**Diolch i ti, O Dduw.**

*There follows the Alleluia or another chant laid down by the rubrics, as the liturgical time requires.*

*Yn y cyfamser, os defnyddir aroglarth, bydd yr offeiriad yn rhoi thus yn y thuser.*

*Yna bydd y diacon sydd i gyhoeddi'r Efengyl yn moesyngrymu i'r offeiriad ac, mewn llais isel, yn gofyn am ei fendith:*

Dad, bendithia fi.

*Mae'r offeiriad, yntau mewn llais isel, yn dweud:*

Boed yr Arglwydd yn dy galon ac ar dy wefusau er mwyn iti gyhoeddi'r Efengyl yn deilwng.

Yn enw'r Tad, a'r Mab ✠ a'r Ysbryd Glân.

*Mae'r diacon yn ymgroesi ac yn ateb:*

Amen.

*Os nad oes diacon, bydd yr offeiriad yn moesyngrymu i'r allor ac yn dweud yn ddistaw*

Glanha fy nghalon a'm gwefusau, O Dduw Hollalluog, fel y gallaf gyhoeddi dy Efengyl Sanctaidd yn deilwng.

## **The Liturgy of the Word**

*Then the reader goes to the ambo and reads the First Reading, while all sit and listen.*

*To indicate the end of the reading, the reader acclaims:*

**The word of the Lord.**

*Pawb yn ateb:*

**Thanks be to God.**

*The psalmist or cantor sings or says the Psalm, with the people making the response.*

*After this, if there is to be a Second Reading, a reader reads it from the ambo, as above.*

*To indicate the end of the reading, the reader acclaims:*

**The word of the Lord.**

*Pawb yn ateb:*

**Thanks be to God.**

*There follows the Alleluia or another chant laid down by the rubrics, as the liturgical time requires.*

*Meanwhile, if incense is used, the Priest puts some into the thurible. After this, the Deacon who is to proclaim the Gospel, bowing profoundly before the Priest, asks for the blessing, saying in a low voice:*

**Your blessing, Father.**

*The Priest says in a low voice:*

**May the Lord be in your heart and on your lips,**

**that you may proclaim his Gospel worthily and well,**

**in the name of the Father and of the Son ✠ and of the Holy Spirit.**

*The Deacon signs himself with the Sign of the Cross and replies:*

**Amen.**

*If, however, a Deacon is not present, the Priest, bowing before the altar, says quietly:*

**Cleanse my heart and my lips, almighty God,**

**that I may worthily proclaim your holy Gospel.**

*Yna bydd y diacon (neu'r offeiriad) yn mynd at y ddarllenfa. Gall gael ei hebrwng gan weinidogion gydag arogldarth a chanhwyllau. Mae'n adrodd neu ganu:*

**Yr Arglwydd a fo gyda chwi.**

*Pawb yn ateb:*

**A chyda thithau**

*Y Diacon, neu'r Offeiriad:*

**Darlleniad o'r Efengyl sanctaidd yn ôl E.**

*Mae'n gwneud arwydd y groes ar y llyfr, yna ar ei dalcen, ar ei wefusau ac ar ei fron.*

*The people acclaim:*

**Gogoniant i ti, O Arglwydd**

*Yna, os defnyddir arogldarth, mae'r diacon (neu'r offeiriad) yn arogldarthu'r llyfr, ac yn cyhoeddi'r Efengyl.*

*At the end of the Gospel, the Deacon, or the Priest, acclaim:*

**Gogoniant i Dduw am ei Air.**

*Pawb yn ateb:*

**Moliant i ti, O Grist.**

*Yna mae'r cusanu'r llyfr gan ddweud yn ddistaw:*

**Through the words of the Gospel  
may our sins be wiped away.**

*Traddodir pregeth ar bob Sul a gwyl rwymediol; ac fe argymhellir pregethu ar ddyddiau eraill.*

*The Deacon, or the Priest, then proceeds to the ambo, accompanied, if appropriate, by ministers with incense and candles. There he says:*

**The Lord be with you.**

*The people reply:*

**And with your spirit.**

*The Deacon, or the Priest:*

**A reading from the holy Gospel according to N.**

*and, at the same time, he makes the Sign of the Cross on the book and on his forehead, lips, and breast.*

*The people acclaim:*

**Glory to you, O Lord.**

*Then the Deacon, or the Priest, incenses the book, if incense is used, and proclaims the Gospel.*

*At the end of the Gospel, the Deacon, or the Priest, acclaim:*

**The Gospel of the Lord.**

*Pawb yn ateb:*

**Praise to you, Lord Jesus Christ.**

*Then he kisses the book, saying quietly:*

**Through the words of the Gospel  
may our sins be wiped away.**

*Then follows the Homily, which is to be preached by a Priest or Deacon on all Sundays and Holydays of Obligation; on other days, it is recommended.*



*At the end of the Homily, the Symbol or Profession of Faith or Creed, when prescribed, is either sung or said:*

**Credaf yn un Duw, Tad Hollalluog,  
gwneuthurwr nef a daear  
a phopeth gweledig ac anweledig.  
Ac yn un Arglwydd Iesu Grist,  
unig-anedig Fab Duw,  
wedi ei genhedlu o'r Tad cyn yr holl oesoedd.  
Duw o Dduw, llewych o lewych,  
gwir Dduw o wir Dduw,  
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,  
yn un hanfod a'r Tad,  
yr Hwn y gwnaed popeth drwyddo;  
yr Hwn, erom ni ddynion ac er ein hiachawdwriaeth  
a ddaeth i lawr o'r nefoedd,**

*At the words that follow up to and including and became man, all bow*

**ac a gnawdolwyd trwy'r Ysbryd Glân o Fair Forwyn,  
ac a ddaeth yn ddyn.**

**Croeshoeliwyd ef hefyd drosom ni dan Pontius Pilat,  
dioddefodd, ac fe'i claddwyd.**

**Ac atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,  
ac esgynnodd i'r nef, ac eistedd ar ddeheulaw'r Tad;  
a daw ef drachefn mewn gogoniant**

**i farnu'r byw a'r meirw,  
a diwedd ni bydd ar ei deyrnas.**

**A chredaf hefyd yn yr Ysbryd Glân,**

**yr Arglwydd a'r Bywiawdwr,**

**sy'n deillio o'r Tad a'r Mab,**

**yr Hwn gyda'r Tad a'r Mab**

**a gydaddolir ac a gydogoneddir,**

**ac a lefarodd drwy'r proffwydi.**

**Ac yn un Eglwys lân, gatholig ac apostolig.**

**Addefaf un bedydd er maddeuant pechodau.**

**A disgwyliaf atgyfodiad y meirw**

**a bywyd y byd sydd i ddyfod. Amen.**

*At the end of the Homily, the Symbol or Profession of Faith or Creed, when prescribed, is either sung or said:*

I believe in one God,  
the Father almighty,  
maker of heaven and earth,  
of all things visible and invisible.  
I believe in one Lord Jesus Christ,  
the Only Begotten Son of God,  
born of the Father before all ages.  
God from God, Light from Light,  
true God from true God,  
begotten, not made, consubstantial with the Father;  
through him all things were made.  
For us men and for our salvation  
he came down from heaven,

*At the words that follow up to and including and became man, all bow.*  
and by the Holy Spirit was incarnate of the Virgin Mary,  
and became man.

For our sake he was crucified under Pontius Pilate,  
he suffered death and was buried,  
and rose again on the third day  
in accordance with the Scriptures.  
He ascended into heaven  
and is seated at the right hand of the Father.

He will come again in glory  
to judge the living and the dead  
and his kingdom will have no end.

I believe in the Holy Spirit, the Lord, the giver of life,  
who proceeds from the Father and the Son,  
who with the Father and the Son is adored and glorified,  
who has spoken through the prophets.

I believe in one, holy, catholic and apostolic Church.  
I confess one Baptism for the forgiveness of sins  
and I look forward to the resurrection of the dead  
and the life of the world to come. Amen.

*Instead of the Niceno-Constantinopolitan Creed, especially during Lent and Easter Time, the baptismal Symbol of the Roman Church, known as the Apostles' Creed, may be used.*

Credaf yn Nuw Dad Hollalluog,

Creawdwr nef a daear..

Ac yn Iesu Grist ei unig Fab, ein Harglwydd,

*At the words that follow, up to and including the Virgin Mary, all bow.*

a ymddygydd o waith yr Ysbryd Glân,

a'i eni o Fair Forwyn;

dioddefodd dan Pontiws Pilat,

fe'i croeshoeliwyd, bu farw, a'i gladdu;

disgynnodd i uffern;

atgyfododd y trydydd dydd oddi wrth y meirw,

esgyn i'r nefoedd,

ac eistedd ar ddeheulaw Duw Dad hollalluog;

daw oddi yno i farnu'r byw a'r meirw.

Credaf yn yr Ysbryd Glân,

yr Eglwys Lân Gatholig,

cymun y Saint,

maddeuant pechodau,

atgyfodiad y cnawd,

a'r bywyd tragwyddol.

Amen

*Then follows the Universal Prayer, that is, the Prayer of the Faithful or Bidding Prayers.*

*Instead of the Niceno-Constantinopolitan Creed, especially during Lent and Easter Time, the baptismal Symbol of the Roman Church, known as the Apostles' Creed, may be used.*

I believe in God,  
the Father almighty,  
Creator of heaven and earth,  
and in Jesus Christ, his only Son, our Lord,  
*At the words that follow, up to and including the Virgin Mary, all bow.*  
who was conceived by the Holy Spirit,  
born of the Virgin Mary,  
suffered under Pontius Pilate,  
was crucified, died and was buried;  
he descended into hell;  
on the third day he rose again from the dead;  
he ascended into heaven,  
and is seated at the right hand of God the Father almighty;  
from there he will come to judge the living and the dead.  
I believe in the Holy Spirit,  
the holy catholic Church,  
the communion of saints,  
the forgiveness of sins,  
the resurrection of the body,  
and life everlasting. Amen.

*Then follows the Universal Prayer, that is, the Prayer of the Faithful or Bidding Prayers.*

## **The Liturgy of the Eucharist**

*Ar ôl litwrgi'r gair, dechreuir ar gân yr offrwm. Yn y cyfamser, bydd y gweinidogion yn gosod y gorfflen, y purltain, y caregl a'r misal ar yr allor. Mae'n beth da fod cyfranogiad y ffyddloniaid yn cael ei fynegi wrth i aelodau o'r gynulleidfa gludo'r bara a'r gwin ar gyfer y dathliad, ynghyd ag unrhyw roddion eraill ar gyfer anghenion yr Eglwys, a'r tlodion*

*Mae'r offeiriad yn sefyll wrth yr allor, ac yn cymryd y paten gyda'r bara arni a, chan ei dyrchafu ychydig uwchben yr allor, yn dweud yn ddistaw:*

**Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw'r holl fyd,**  
am inni dderbyn

o'th gyflawnder y bara yr ydym yn ei offrymu i ti,  
ffrwyth y ddaear a gwaith dwylo dynion;  
oblegid ohono y daw i ni fara'r bywyd.

*Yna mae'n gosod y paten gyda'r bara ar y gorfflen.*

*Os nad oes cân offrwm, gall yr offeiriad ddweud y geiriau blaenorol mewn llais clywadwy, a'r bobl yn ateb:*

### **Bendigedig yw Duw yn dragywydd**

*Mae'r diacon (neu'r offeiriad) yn arllwys gwin ac ychydig o ddŵr i'r caregl, gan ddweud yn ddistaw:*

Trwy rinwedd yr uniad cyfrin hwn o ddŵr a gwin,  
gwneler ni'n gyfrannog o'i anian dwyfol ef  
a ymostyngodd i gymryd ein natur ni.

*Yna mae'r offeiriad yn gafael yn y caregl, a chan ei dyrchafu ychydig uwchben yr allor, yn dweud yn ddistaw:*

**Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw'r holl fyd,**  
am inni dderbyn o'th gyflawnder y gwin yr ydym yn ei offrymu i ti,  
ffrwyth y winwydden a gwaith dwylo dynion;  
oblegid ohono y daw i ni ddiod ysbrydol.

*Yna mae'n gosod y caregl ar y gorfflen.*

*Os nad oes cân offrwm, gall yr offeiriad ddweud y geiriau blaenorol mewn llais clywadwy, a'r bobl yn ateb:*

### **Bendigedig yw Duw yn dragywydd**

## **The Liturgy of the Eucharist**

*When all this has been done, the Offertory Chant begins. Meanwhile, the ministers place the corporal, the purificator, the chalice, the pall, and the Missal on the altar. It is desirable that the faithful express their participation by making an offering, bringing forward bread and wine for the celebration of the Eucharist and perhaps other gifts to relieve the needs of the Church and of the poor.*

*The Priest, standing at the altar, takes the paten with the bread and holds it slightly raised above the altar with both hands, saying in a low voice:*

Blessed are you, Lord God of all creation,  
for through your goodness we have received  
the bread we offer you:  
fruit of the earth and work of human hands,  
it will become for us the bread of life.

*Then he places the paten with the bread on the corporal.*

*If, however, the Offertory Chant is not sung, the Priest may speak these words aloud; at the end, the people may acclaim:*

Blessed be God for ever.

*The Deacon, or the Priest, pours wine and a little water into the chalice, saying quietly:*

By the mystery of this water and wine  
may we come to share in the divinity of Christ  
who humbled himself to share in our humanity.

*The Priest then takes the chalice and holds it slightly raised above the altar with both hands, saying in a low voice:*

Blessed are you, Lord God of all creation,  
for through your goodness we have received  
the wine we offer you:  
fruit of the vine and work of human hands,  
it will become our spiritual drink.

*Then he places the chalice on the corporal.*

*If, however, the Offertory Chant is not sung, the Priest may speak these words aloud; at the end, the people may acclaim:*

Blessed be God for ever.

*Mae'r offeiriad yn ymgrymu a dweud yn ddistaw:*

Yn ostyngedig ein hysbryd ac yn edifeiriol ein bryd,  
derbynier ni gennyti, Arglwydd:  
a boed i'n haberth yn dy olwg heddiw,  
O Arglwydd Dduw, ryngu dy fodd di.

*Yn awr, fe all aroglarthu'r offrymau a'r allor. Wedyn, mae'r diacon neu'r  
gweinidog yn aroglarthu'r offeiriad a'r bobl.*

*Yna mae'r offeiriad yn sefyll wrth ochr yr allor ac yn golchi'i ddwylo, gan ddweud  
yn ddistaw:*

Golch fi'n llwyr, Arglwydd, oddi wrth fy nghanwedd,  
a glanha fi oddi wrth fy mhechod.

*Gan sefyll wrth ganol yr allor, ac wynebu'r bobl, mae'n estyn ei ddwylo ac yna'r ei  
dal ynghyd, gan ddweud:*

Gweddîwch, frodyr a chwiorydd, ar fod fy aberth i a'ch aberth  
chwithau'n gymeradwy gan Dduw Dad Hollalluog.

*Mae'r bobl yn codi ac yn ateb:*

**Derbynied yr Arglwydd yr aberth o'th ddwylo,  
er mawl a gogoniant i'w enw,  
ac er lles i ni,  
ac i'w Eglwys sanctaidd oll.**

*Â'i ddwylo wedi eu hestyn, mae'r offeiriad yn canu neu ddweud y weddi dros y  
rhoddion, ac ar y diwedd mae'r bobl yn ateb*

**Amen.**

*After this, the Priest, bowing profoundly, says quietly:*

With humble spirit and contrite heart  
may we be accepted by you, O Lord,  
and may our sacrifice in your sight this day  
be pleasing to you, Lord God.

*If appropriate, he also incenses the offerings, the cross, and the altar. A Deacon or other minister then incenses the Priest and the people.*

*Then the Priest, standing at the side of the altar, washes his hands, saying quietly:*

Wash me, O Lord, from my iniquity  
and cleanse me from my sin.

*Standing at the middle of the altar, facing the people, extending and then joining his hands, he says:*

Pray, brethren (brothers and sisters),  
that my sacrifice and yours  
may be acceptable to God,  
the almighty Father.

*The people rise and reply:*

May the Lord accept the sacrifice at your hands  
for the praise and glory of his name,  
for our good  
and the good of all his holy Church.

*Then the Priest, with hands extended, says the Prayer over the Offerings, at the end of which the people acclaim:*

Amen.



## THE EUCHARISTIC PRAYER

*Mae'r offeiriad yn dechrau adrodd y Weddi Ewcharistaidd.*

*Gyda'i ddwylo wedi eu hestyn, mae'n canu neu'n dweud:*

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

*Pawb yn ateb:*

**A chyda thithau.**

*Mae'n dyrchafu ei ddwylo ac yn mynd ymlaen:*

Dyrchafwn ein calonnau

*Y bobl:*

**Yr ydym wedi'u dyrchafu at yr Arglwydd.**

*Mae'n dyrchafu ei ddwylo ac yn ategu:*

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

*Y bobl:*

**Addas a chyflawn ydyw.**

*Mae'r offeiriad yn parhau gyda'r rhaglith gyda'i ddwylo wedi eu hestyn.*

*Ar ddiwedd y rhaglith, mae'n rhoi ei ddwylo ynghyd a, gyda'r bobl, yn ei diweddu trwy ganu neu adrodd yn uchel:*

**Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd,**

**Arglwydd Dduw'r lluoedd.**

**Mae nef a daear yn llawn o'th ogoniant.**

**Hosanna yn y goruchaf.**

**Bendigedig yw'r Hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.**

**Hosanna yn y goruchaf.**

*Yn y Weddi Ewcharistaidd gyntaf (Y Canon Rhufeinig) gellir hepgor y geiriau sydd rhwng cromfachau.*

## THE EUCHARISTIC PRAYER

*Then the Priest begins the Eucharistic Prayer.*

*Extending his hands, he says:*

The Lord be with you.

*The people reply:*

And with your spirit.

*The Priest, raising his hands, continues:*

Lift up your hearts.

*The people:*

We lift them up to the Lord.

*The Priest, with hands extended, adds:*

Let us give thanks to the Lord our God.

*The people:*

It is right and just.

*The Priest, with hands extended, continues the Preface.*

*At the end of the Preface he joins his hands and concludes the Preface with the people, singing or saying aloud:*

Holy, Holy, Holy Lord God of hosts.

Heaven and earth are full of your glory.

Hosanna in the highest.

Blessed is he who comes in the name of the Lord.

Hosanna in the highest.

*In Eucharistic Prayer I, the Roman Canon, the words included in brackets may be omitted.*

## **GWEDDI EWCHARISTAIDD I**

(Y CANON RHUFEINIG)

*Mae'r offeiriad yn estyn ei ddwylo a dweud:*

Gan hynny, Dad trugarog,  
trwy Iesu Grist, dy Fab, ein Harglwydd,  
yr ydym yn gofyn

*Mae'n rhoi ei ddwylo ynghyd a dweud*

iti dderbyn

*Gan wneud arwydd y groes unwaith dros y bara a'r caregl, mae'n dweud:*

a bendithio'r ✠ rhoddion hyn

*Gyda'i ddwylo wedi eu hestyn, mae'n mynd ymlaen:*

a gyflwynwn iti dros dy Eglwys lân gatholig:

dyro iddi dangnefedd ac undod,

cadw hi a bugeilia hi drwy'r holl fyd

ynghyd â'th was E., ein Pab, a'n Heskob E.

a phawb sy'n gywir eu cred

ac yn cynnal y Ffydd gatholig ac apostolig.

EUCCHARISTIC PRAYER I  
(THE ROMAN CANON)

*The Priest, with hands extended, says:*

To you, therefore, most merciful Father,  
we make humble prayer and petition  
through Jesus Christ, your Son, our Lord:

*He joins his hands and says*

that you accept

*He makes the Sign of the Cross once over the bread and chalice together, saying:*

and bless ✠ these gifts, these offerings,  
these holy and unblemished sacrifices,

*With hands extended, he continues:*

which we offer you firstly  
for your holy catholic Church.

Be pleased to grant her peace,  
to guard, unite and govern her  
throughout the whole world,  
together with your servant N. our Pope  
and N. our Bishop,  
and all those who, holding to the truth,  
hand on the catholic and apostolic faith.

*Coffau'r byw*

Cofia, Arglwydd, dy feibion a'th ferched.

*Gyda'i ddwylo ynghyd, mae'n gweddïo'n fyr drostynt.*

*Yna, gan estyn ei ddwylo, mae'n mynd ymlaen:*

Cofia bawb sy'n bresennol yma,  
a'u ffydd a'u cariad yn hysbys iti.

Offrymwn iti yr aberth hwn o foliant drosom  
ein hunain a thros bawb sy'n annwyl inni,  
yng ngobaith iachawdwriaeth ac iechyd i gorff ac enaid,  
gan ddiolch iti, y gwir Dduw byw a thragwyddol.

*O fewn y Gweithred*

Mewn cymundeb â'r holl Eglwys yr ydym yn coffau'n anrhydeddus,  
yn flaenaf, Fair Forwyn, mam ein Duw a'n Harglwydd Iesu Grist,  
Joseff hefyd, ei phriod,  
dy apostolion a'th ferthyron, Pedr a Phaul, Andreas,

(Iago, Ioan,

Thomas, Iago, Philip,

Bartholomeus, Mathew,

Simon, a Jwdas;

anrhydeddwn Linus, Cletus, Clement, Sixtus,

Cornelius, Cyprian,

Lawrens, Crysogonus,

Ioan a Phaul,

Cosmas a Damian)

a'th holl saint.

Trwy eu haeddiant

hwy a'u gweddïau amddiffyn a chynorthwya ni bob amser.

(Drwy Grist ein Harglwydd. Amen.)

---

*Commemoration of the Living.*

Remember, Lord, your servants N. and N.

*The Priest joins his hands and prays briefly for those for whom he intends to pray.*

*Then, with hands extended, he continues:*

and all gathered here,

whose faith and devotion are known to you.

For them, we offer you this sacrifice of praise

or they offer it for themselves

and all who are dear to them:

for the redemption of their souls,

in hope of health and well-being,

and paying their homage to you,

the eternal God, living and true.

*Within the Action.*

In communion with those whose memory we venerate,

especially the glorious ever-Virgin Mary,

Mother of our God and Lord, Jesus Christ,

† and blessed Joseph, her Spouse,

your blessed Apostles and Martyrs,

Peter and Paul, Andrew,

(James, John,

Thomas, James, Philip,

Bartholomew, Matthew,

Simon and Jude;

Linus, Cletus, Clement, Sixtus,

Cornelius, Cyprian,

Lawrence, Chrysogonus,

John and Paul,

Cosmas and Damian)

and all your Saints;

we ask that through their merits and prayers,

in all things we may be defended

by your protecting help.

(Through Christ our Lord. Amen.)

## PROPER FORMS OF THE *COMMUNICANTES*

### *Adeg y Nadolig*

Mewn cymundeb â'r holl Eglwys  
yr ydym yn dathlu'r (noson sanctaidd honno) dydd sanctaidd hwnnw  
pan roddodd Mair, a hithau'n aros yn wryf,  
Iachawdwr i'r byd.  
Yr ydym yn coffau'n anrhydeddus, yn flaenaf, Fair Forwyn . . .

### *Yr Ystwyll*

Mewn cymundeb â'r holl Eglwys yr ydym yn dathlu'r dydd hwnnw  
pan ymddangosodd dy unig-anedig Fab,  
sydd gyda thi yn dragywydd mewn gogoniant,  
mewn corff dynol.  
Yr ydym yn coffau'n anrhydeddus, yn flaenaf, Fair Forwyn . . .

### *Offeren Gwynnos y Pasg hyd Ail Sul y Pasg*

Mewn cymundeb â'r holl Eglwys yr ydym yn dathlu'r  
(noson sanctaidd honno) y dydd sanctaidd hwnnw  
pan atgyfododd ein Harglwydd Iesu Grist, yn ôl y cnawd.  
Yr ydym yn coffau'n anrhydeddus, yn flaenaf, Fair Forwyn . . .

### *Gwyl y Dyrchafael*

Mewn cymundeb â'r holl Eglwys yr ydym yn dathlu'r dydd sanctaidd  
hwnnw pan esgynnodd dy unig-anedig Fab, ein Harglwydd,  
i'w le ar dy ddeheulaw di wedi iddo uno ag ef  
ei hun ein natur eiddil ni.  
Yr ydym yn coffau'n anrhydeddus, yn flaenaf, Fair Forwyn . . .

### *Y Sulgwyn*

Mewn cymundeb â'r holl Eglwys  
yr ydym yn dathlu'r dydd sanctaidd hwnnw  
pan ymddangosodd dy Ysbryd Glân i'r apostolion yn dafodau o dân.  
Yr ydym yn coffau'n anrhydeddus yn flaenaf, Fair Forwyn . . .

---

PROPER FORMS OF THE *COMMUNICANTES*

**On the Nativity of the Lord and throughout the Octave**

Celebrating the most sacred night (day)

on which blessed Mary the immaculate Virgin

brought forth the Saviour for this world,

and in communion with those whose memory we venerate,

especially the glorious ever-Virgin Mary,

Mother of our God and Lord, Jesus Christ, †

**On the Epiphany of the Lord**

Celebrating the most sacred day

on which your Only Begotten Son,

eternal with you in your glory,

appeared in a human body, truly sharing our flesh,

and in communion with those whose memory we venerate,

especially the glorious ever-Virgin Mary,

Mother of our God and Lord, Jesus Christ, †

**From the Mass of the Easter Vigil until the Second Sunday of Easter**

Celebrating the most sacred night (day)

of the Resurrection of our Lord Jesus Christ in the flesh,

and in communion with those whose memory we venerate,

especially the glorious ever-Virgin Mary,

Mother of our God and Lord, Jesus Christ, †

**On the Ascension of the Lord**

Celebrating the most sacred day

on which your Only Begotten Son, our Lord,

placed at the right hand of your glory

our weak human nature,

which he had united to himself,

and in communion with those whose memory we venerate,

especially the glorious ever-Virgin Mary,

Mother of our God and Lord, Jesus Christ, †

**On Pentecost Sunday**

Celebrating the most sacred day of Pentecost,

on which the Holy Spirit

appeared to the Apostles in tongues of fire,

and in communion with those whose memory we venerate,

especially the glorious ever-Virgin Mary,

Mother of our God and Lord, Jesus Christ, †



*Gyda'i ddwylo wedi eu hestyn, mae'n mynd ymlaen:*

Am hynny, Arglwydd,  
derbyn aberth ein gwasanaeth ni a'th holl deulu.  
Trefna'n dyddiau yn dy dangnefedd.  
Gwared ni rhag y farn dragwyddol,  
a chyfrif ni ymhlith dy etholedigion.

*Mae'n rhoi ei ddwylo ynghyd.*

(Drwy Grist ein Harglwydd. Amen.)

*Offeren Gwynnos y Pasg hyd Ail Sul y Pasg*

Am hynny, Arglwydd,  
derbyn aberth ein gwasanaeth ni a'th holl deulu.  
Offrymwn ef hefyd dros y rhai a ailgenhedlaist ti  
o ddŵr a'r Ysbryd Glân,  
gan faddau iddynt eu holl bechodau.  
Trefna'n dyddiau yn dy dangnefedd.  
Gwared ni rhag y farn dragwyddol,  
a chyfrif ni ymhlith dy etholedigion.

*Mae'n rhoi ei ddwylo ynghyd.*

(Drwy Grist ein Harglwydd. Amen.)

---

*With hands extended, the Priest continues:*

Therefore, Lord, we pray:  
graciously accept this oblation of our service,  
that of your whole family;  
order our days in your peace,  
and command that we be delivered from eternal damnation  
and counted among the flock of those you have chosen.

*He joins his hands.*

(Through Christ our Lord. Amen.)

---

**From the Mass of the Easter Vigil until the Second Sunday of  
Easter**

Therefore, Lord, we pray:  
graciously accept this oblation of our service,  
that of your whole family,  
which we make to you  
also for those to whom you have been pleased to give  
the new birth of water and the Holy Spirit,  
granting them forgiveness of all their sins;  
order our days in your peace,  
and command that we be delivered from eternal damnation  
and counted among the flock of those you have chosen.

*He joins his hands.*

(Through Christ our Lord. Amen.)

*Gyda'i ddwylo wedi eu hestyn dros yr offrymau, mae'n dweud:*

Bendithia, O Dduw, yr offrwm hwn,  
a'i wneud yn wir ysbrydol a chymeradwy fel y bydd, er ein lles,  
yn gorff a gwaed dy annwyl Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

*Mae'n rhoi ei ddwylo ynghyd..*

*Dylid llefaru geiriau'r Arglwydd yn y fformwlâu canlynol yn eglur a chlir, yn ôl fel y mae eu hystyr yn galw amdano.*

Yr hwn, y dydd o flaen ei Ddiodefaint,

*Mae'n cymryd y bara a, chan ei ddyrchafu ychydig uwchben yr allor, yn mynd ymlaen:*

a gymerodd fara yn ei ddwylo sanctaidd,

*Mae'n edrych tuag at i fyny.*

ac wedi edrych tua'r nef atat ti, Dduw, ei Dad Hollalluog,  
a chan ddiolch i ti a bendithio,  
fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud:

*Mae'n ymgrymu fymryn.*

CYMERWCH, BWYTEWCH OHONO BAWB:  
HWN YW FY NGHORFF A RODDIR DROSOCH.

*Mae'n dangos y perchen cysegredig i'r bobl, ei osod ar y paten, a phenlinio i'w addoli.*

*Mae'n mynd ymlaen.*

Yr un modd, wedi bwyta,

*Mae'n cymryd y caregl a chan ei ddyrchafu ychydig uwchben yr allor, yn mynd ymlaen:*

cymerodd y cwpan rhagorol hwn yn ei ddwylo sanctaidd,  
a chan ddiolch i ti a bendithio drachefn,  
fe'i rhoddodd i'w ddisgyblion, gan ddweud:

*Mae'n ymgrymu fymryn.*

*Holding his hands extended over the offerings, he says:*

Be pleased, O God, we pray,  
to bless, acknowledge,  
and approve this offering in every respect;  
make it spiritual and acceptable,  
so that it may become for us  
the Body and Blood of your most beloved Son,  
our Lord Jesus Christ.

*He joins his hands.*

*In the formulas that follow, the words of the Lord should be pronounced clearly and distinctly, as the nature of these words requires.*

On the day before he was to suffer,

*He takes the bread*

*and, holding it slightly raised above the altar, continues:*

he took bread in his holy and venerable hands,

*He raises his eyes.*

and with eyes raised to heaven  
to you, O God, his almighty Father,  
giving you thanks, he said the blessing,  
broke the bread  
and gave it to his disciples, saying:

*He bows slightly.*

TAKE THIS, ALL OF YOU, AND EAT OF IT,  
FOR THIS IS MY BODY,  
WHICH WILL BE GIVEN UP FOR YOU.

*He shows the consecrated host to the people, places it again on the paten, and genuflects in adoration.*

*After this, the Priest continues:*

In a similar way, when supper was ended,

*He takes the chalice*

*and, holding it slightly raised above the altar, continues:*

he took this precious chalice  
in his holy and venerable hands,  
and once more giving you thanks, he said the blessing  
and gave the chalice to his disciples, saying:

*He bows slightly.*

CYMERWCH, YFWCH OHONO BAWB:  
HWN YW CWPAN FY NGWAED  
O'R CYFAMOD NEWYDD A THRAGWYDDOL,  
A DYWELLTIR DROSOCH CHWI A THROS BAWB  
ER MADDEUANT PECHODAU.

GWNEWCH HYN ER COF AMDANAF.

*Mae'n dangos y caregl i'r bobl, ei osod ar y gorfflen, a phenlinio i'w addoli.*

*Yna mae'n canu neu'n dweud:*

Dyma ddirgelwch y Ffydd:

*Pawb yn ateb:*

**Cyhoeddwn dy farwolaeth, Arglwydd,  
addefwn dy atgyfodiad nes i ti ddod.**

*Neu:*

**Bob tro y bwydawn y bara hwn ac yfed y cwpan,  
cyhoeddwn dy farwolaeth,  
Arglwydd, nes i ti ddod.**

*Neu:*

**Iachawdwr y byd, iachâ ni;  
trwy dy groes a'th atgyfodiad,  
yr wyt wedi ein rhyddhau.**

*Yna, gyda'i ddwylo wedi eu hestyn, mae'r offeiriad yn dweud:*

Am hynny, Arglwydd Dduw'r gogoniant,  
gan goffáu dioddefaint bendigedig Iesu Grist, dy Fab,  
ein Harglwydd,  
ei atgyfodiad hefyd o farw,  
a'i ddyrchafael gogoneddus i'r nef, yr ydym ni,  
dy weision a'th bobl sanctaidd,  
yn offrymu iti o'th roddion inni aberth pur a glân a difrycheulyd,  
bara sanctaidd y bywyd tragwyddol  
a chwpan yr iachawdwriaeth dragwyddol.

TAKE THIS, ALL OF YOU, AND DRINK FROM IT,  
FOR THIS IS THE CHALICE OF MY BLOOD,  
THE BLOOD OF THE NEW AND ETERNAL COVENANT,  
WHICH WILL BE Poured OUT FOR YOU AND FOR MANY  
FOR THE FORGIVENESS OF SINS.  
DO THIS IN MEMORY OF ME.

*He shows the chalice to the people, places it on the corporal, and genuflects in adoration.*

*Then he says:*

The mystery of faith.

*And the people continue, acclaiming:*

We proclaim your Death, O Lord,  
and profess your Resurrection  
until you come again.

*Or:*

When we eat this Bread and drink this Cup,  
we proclaim your Death, O Lord,  
until you come again.

*Or:*

Save us, Saviour of the world,  
for by your Cross and Resurrection  
you have set us free.

*Then the Priest, with hands extended, says:*

Therefore, O Lord,  
as we celebrate the memorial of the blessed Passion,  
the Resurrection from the dead,  
and the glorious Ascension into heaven  
of Christ, your Son, our Lord,  
we, your servants and your holy people,  
offer to your glorious majesty  
from the gifts that you have given us,  
this pure victim,  
this holy victim,  
this spotless victim,  
the holy Bread of eternal life  
and the Chalice of everlasting salvation.

Edrych yn hawddgar ar y rhain;  
derbyn hwy fel y derbynaiast offrwm dy was cyfiawn Abel,  
ac aberth Abraham, ein Tad yn y Ffydd,  
a'r hyn a offrymodd dy archoffeiriad Melchisedec,  
yn offrwm glân ac aberth difrycheulyd.

*Gan ymgrymu, a'i ddwylo ynghyd, mae'n mynd ymlaen:*

Erfyniwn arnat, Dduw Hollalluog,  
i beri i'th angel ddwyn ein hoffrwm ger dy fron i'th allor yn y nef;  
er mwyn i ni, wrth gyfranogi o'r allor hon  
a derbyn corff a gwaed dy Fab,

*Mae'n codi i'w draed ac ymgroesi, gan ddweud:*

gael ein diwallu â phob gras a bendith nefol.

*Mae'n rhoi ei ddwylo ynghyd..*

(Drwy Grist ein Harglwydd. Amen.)

*Coffau'r meirw*

*With hands extended, the Priest says:*

Cofia hefyd,  
Arglwydd, dy feibion a'th ferched sydd wedi mynd  
o'n blaen ac arnynt arwydd y Ffydd,  
ac sy'n huno yng nghwsg tangnefedd.

*Mae'n rhoi ei ddwylo ynghyd. and prays briefly for those who have died and for whom he intends to pray.*

*Gyda'i ddwylo wedi eu hestyn, mae'n mynd ymlaen:*

Dyro i'r rhain, Arglwydd,  
ac i bawb sy'n gorffwys yng Nghrist le o ddiddanwch,  
goleuni a thangnefedd.

*Mae'n rhoi ei ddwylo ynghyd..*

(Drwy Grist ein Harglwydd. Amen.)

*Mae'r offeiriad yn taro'i fron gyda'i law dde, gan ddweud:*

I ninnau hefyd, bechaduriaid,

*Gyda'i ddwylo wedi eu hestyn, mae'n mynd ymlaen:*

Be pleased to look upon these offerings  
with a serene and kindly countenance,  
and to accept them,  
as once you were pleased to accept  
the gifts of your servant Abel the just,  
the sacrifice of Abraham, our father in faith,  
and the offering of your high priest Melchizedek,  
a holy sacrifice, a spotless victim.

*Bowing, with hands joined, he continues:*

In humble prayer we ask you, almighty God:  
command that these gifts be borne  
by the hands of your holy Angel  
to your altar on high  
in the sight of your divine majesty,  
so that all of us, who through this participation at the altar  
receive the most holy Body and Blood of your Son,

*He stands upright again and signs himself with the Sign of the Cross, saying:*  
may be filled with every grace and heavenly blessing.

*He joins his hands.*

(Through Christ our Lord. Amen.)

*Commemoration of the Dead*

*With hands extended, the Priest says:*

Remember also, Lord, your servants N. and N.,  
who have gone before us with the sign of faith  
and rest in the sleep of peace.

*He joins his hands and prays briefly for those who have died and for whom he  
intends to pray.*

*Then, with hands extended, he continues:*

Grant them, O Lord, we pray,  
and all who sleep in Christ,  
a place of refreshment, light and peace.

*He joins his hands.*

(Through Christ our Lord. Amen.)

*He strikes his breast with his right hand, saying:*

To us, also, your servants, who, though sinners,

*And, with hands extended, he continues:*



sy'n gobeithio yn amllder dy dosturiaethau,  
caniatâ ryw gyfran  
a chymdeithas gyda'th apostolion a'th ferthyron sanctaidd;  
gydag Ioan Fedyddiwr, Steffan,  
Barnabas, Mathias,  
(Ignatius, Alecsander,  
Marcelinus, Pedr,  
Ffelisitas, Perpetua,  
Agatha, Lwsi,  
Sesilia, Anastasia)  
a'th holl saint.

I'w cymdeithas hwy derbyn ninnau, Arglwydd,  
nid fel cyfrifwr haeddiannau,  
ond fel rhoddwr maddeuant.

*Mae'n rhoi ei ddwylo ynghyd..*

Trwy Grist ein Harglwydd

*Mae'n mynd ymlaen:*

yr wyt, O Dduw, bob amser yn creu, yn sancteiddio, yn bywhau,  
yn bendithio ac yn rhoddi i ni'r pethau daionus hyn.

*Mae'n cymryd y caregl a'r paten gyda'r perchen arni, a'u dyrchafu, yna'n canu neu ddweud:*

Trwyddo ef,

a chydag ef,

ac ynddo ef,

y mae i ti, Dduw Dad Hollalluog,

yn undod yr Ysbryd Glân,

bob anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd.

*Pawb yn ateb*

**Amen.**

hope in your abundant mercies,  
graciously grant some share  
and fellowship with your holy Apostles and Martyrs:  
with John the Baptist, Stephen,  
Matthias, Barnabas,  
(Ignatius, Alexander,  
Marcellinus, Peter,  
Felicity, Perpetua,  
Agatha, Lucy,  
Agnes, Cecilia, Anastasia)  
and all your Saints;  
admit us, we beseech you,  
into their company,  
not weighing our merits,  
but granting us your pardon,

*He joins his hands.*

through Christ our Lord.

*And he continues:*

Through whom  
you continue to make all these good things, O Lord;  
you sanctify them, fill them with life,  
bless them, and bestow them upon us.

*He takes the chalice and the paten with the host and, raising both, he says:*

Through him, and with him, and in him,  
O God, almighty Father,  
in the unity of the Holy Spirit,  
all glory and honour is yours,  
for ever and ever.

*The people acclaim:*

Amen.

.

## **GWEDDI EWCHARISTAIDD 2**

*Although it is provided with its own Preface, this Eucharistic Prayer may also be used with other Prefaces, especially those that present an overall view of the mystery of salvation, such as the Common Prefaces.*

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

**A chyda thithau.**

Dyrchafwn ein calonnau

**Yr ydym wedi'u dyrchafu at yr Arglwydd.**

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

**Addas a chyflawn ydyw.**

Gwir addas a chyfiawn, ie, ein dyletswydd a'n hiachawdwriaeth yw bob amser ac ym mhob lle roddi diolch i ti,

Dad sanctaidd, drwy Iesu Grist, dy annwyl Fab:

Oherwydd ef yw dy Air byw, y gwnaethost bopeth drwyddo,

ef yw'r hwn a anfonaist yn Waredwr i ni ac yn Geidwad;

fe ddaeth yn ddyw drwy'r Ysbryd Glân a'i eni o Fair Forwyn;

Yntau, wrth gyflawni dy ewyllys di

a pharatoi i ti bobl sanctaidd,

a ledodd ei ddwylo mewn dioddefaint

i ddatod rhwymau marwolaeth

ac arddangos goruchafiaeth yr atgyfodiad.

Ninnau, gan hynny, gyda'r angylion a'r holl saint,

cyhoeddwn dy ogoniant gan ddweud ag un llais:

**Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd,**

**Arglwydd Dduw'r lluoedd.**

**Mae nef a daear yn llawn o'th ogoniant.**

**Hosanna yn y goruchaf.**

**Bendigedig yw'r Hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.**

**Hosanna yn y goruchaf.**

## EUCHARISTIC PRAYER II

*Although it is provided with its own Preface, this Eucharistic Prayer may also be used with other Prefaces, especially those that present an overall view of the mystery of salvation, such as the Common Prefaces.*

V. The Lord be with you.

R. And with your spirit.

V. Lift up your hearts.

R. We lift them up to the Lord.

V. Let us give thanks to the Lord our God.

R. It is right and just.

It is truly right and just, our duty and our salvation,  
always and everywhere to give you thanks, Father most holy,  
through your beloved Son, Jesus Christ,  
your Word through whom you made all things,  
whom you sent as our Saviour and Redeemer,  
incarnate by the Holy Spirit and born of the Virgin.  
Fulfilling your will and gaining for you a holy people,  
he stretched out his hands as he endured his Passion,  
so as to break the bonds of death and manifest the resurrection.  
And so, with the Angels and all the Saints  
we declare your glory,  
as with one voice we acclaim:  
Holy, Holy, Holy Lord God of hosts.  
Heaven and earth are full of your glory.  
Hosanna in the highest.  
Blessed is he who comes in the name of the Lord.  
Hosanna in the highest.

*Mae'r offeiriad yn estyn ei ddwylo a dweud*

Sanctaidd wyt, Arglwydd, ffynnon pob sancteiddrwydd.

*Mae'n rhoi ei ddwylo ynghyd, a chan eu hestyn dros yr offrymau, yn dweud:*

Sancteiddia di, gan hynny, y rhoddion hyn â gwllith dy Ysbryd Glân,

*Mae'n rhoi ei ddwylo ynghyd.*

*a, chan wneud arwydd y groes unwaith dros y bara a'r caregl, yn dweud:*

a'u troi i ni yn gorff ✠ a gwaed ein Harglwydd Iesu Grist.

*Mae'n rhoi ei ddwylo ynghyd..*

*Dylid llefaru geiriau'r Arglwydd yn y fformwlâu canlynol yn eglur a chllir, yn ôl fel y mae eu hystyr yn galw amdano.*

Ac yntau'n ei roddi ei hun o'i wirfodd i ddioddef,

*Mae'n cymryd y bara a, chan ei ddyrchafu ychydig uwchben yr allor,*

*yn mynd ymlaen:*

fe gymerodd fara, a chan ddiolch fe'i torrodd a'i roddi i'w ddisgyblion gan ddweud:

*Mae'n ymgrymu fymryn..*

